## Helo Berson Hyfryd,

I ddechrau, diolch am ddod i gyfarfod cyntaf y flwyddyn Cyngor yr Undeb a diolch hefyd am gymryd rhan. Fel rydych siwr o fod yn gwybod, mae democratiaeth yn bwysig i ni, ond rydym yn gwerthfawrogi nad yw hon wastad yn beth hawdd i godi cyffro amdani. Serch hynny, credwn fod lleisiau pob un ohonoch yn hafal ac maent yn haeddu cael eu clywed.

Rydym wastad yn chwilio am ffyrdd o wella eich profiad, boed hynny yn y ddarlithfa neu ar y maes chwarae. Mae rhai pethau'n haws na'i gilydd, ond yn y bon, os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni.

Felly, rydym wedi ymrwymo i sicrhau eich bod yn gwybod yr hyn rydym yn gweithio arno ac i roi cyfle i chi ddweud wrthym os mae'r gwaith wedi'i gyflawni. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cynnwys rhai o'r ymgyrchoedd a'r prosiectau rydym am i chi wybod amdanynt ac i chi ddweud wrthym os ydym wedi cyflawni ein gwaith yn y bôn.

Yn y cyfamser, cadwch lygad agored am ein blogiau a'n he-byst am ddiweddariadau mwy manwl ar ein gwaith. A chadwch lygad am y gwaith anhygoel bydd eich Swyddogion Rhan Amser yn ei wneud yn ystod y misoedd nesaf.

Os ydych am siarad gyda ni ynglŷn ag unrhywbeth uchod, ewch i'r wefan, e-bostiwch ni neu dewch i ddweud helo yn y cyfarfod.

Lewis, Hanna, Kelly, Lauren ac Ieuan

# Lewis Donnelly

## Llywydd

### Socedi Trydan, Socedi Trydan ym Mhobman

Rydyn ni i gyd wedi bod yno, wrthi'n gweithio yn y llyfrgell ac mae eich gliniadur ar farw, ond does yno'r un soced drydan sbâr yn unman.... Wel, mae pethau'n mynd i newid! Bydd yno fwy o socedi trydan a mwy o fannau i chi wneud eich gwaith.

Statws: Cyflawnwyd

Gallwch weld beth arall rydw i'n mynd i'w wneud drwy gydol y flwyddyn yma.

# Hanna Medi Merrigan

## Swyddog Materion Cymreig & Llywydd UMCA

### Eich Profiadau Cymdeithasol

Byddwn yn parhau i'ch darparu â digwyddiadau cymdeithasol gwych gydol y flwyddyn, felly gwyliwch allan am y diweddaraf a mwy!

Statws: Camau Olaf

### Mae UMCA ac UMAber mewn Perthynas

Yn dilyn sawl blwyddyn o ansicrwydd, mae UMCA ac UMAber wedi drafftio a chytuno ar ddogfen o ddealltwriaeth o ran sut y bydd y naill undeb a'r llall yn gweithio gyda'i gilydd i roi grym i'n haelodau. Yn y bôn, gallwn ni newid ein statws Facebook i 'mewn perthynas'.

Statws: Camau Olaf

Gallwch weld beth arall rydw i'n mynd i'w wneud drwy gydol y flwyddyn yma.

# Kelly Keat

## Swyddog Gweithgareddau

### Cit Newydd, Darparydd Newydd

Rydym wedi dewis darparydd cit newydd ynghyd â dyluniad newydd ar gyfer Tîm Aber a ChymAber.

Statws: Cyflawnwyd

### Dathlu Eich Llwyddiant

Rydym yn gweithio ar ganfod a datblygu man arbennig ar gyfer dathlu llwyddiant ein clybiau chwaraeon a chymdeithasau. Bydd hyn hefyd o gymorth i gadw pobl yn gyfoes o ran yr hyn rydych yn ei wneud gydol y flwyddyn!

Statws: Camau Olaf

Gallwch weld beth arall rydw i'n mynd i'w wneud drwy gydol y flwyddyn yma.

# Lauren Marks

## Swyddog Addysg

### Llyfrgell 24 Awr

Mae'r Brifysgol wedi cytuno i ddarparu llyfrgell 24 awr yn ystod y tymor, gan ddechrau ar 21ain Medi.

Statws: Cyflawnwyd

### Siartr Cyflogaeth Ôl-raddedigion

Mae'r Brifysgol, wedi gwneud ymrwymiad i dalu pob myfyriwr Ôl-raddedig sy'n addysgu am eu gwaith sy'n dechrau o fis Medi.

Statws: Cyflawnwyd

Gallwch weld beth arall rydw i'n mynd i'w wneud drwy gydol y flwyddyn yma.

# Ieuan Gregory

## Swyddog Lles

### Cynnig Cefnogaeth i chi yn Llanbadarn

Ni ddylai'r campws rydych yn astudio arno fod yn rhwystr i gael mynediad i'r gefnogaeth rydych ei hangen. Byddwn yn gweithio i sicrhau mai dyma yw'r achos a chanfod ffyrdd newydd o gynnig cefnogaeth i chi.

Y Diweddaraf: Bydd ein Canolfan Gyngor ar agor ar brynhawn dydd Mawrth ac ar brynhawn dydd Iau!

Statws: Cyflawnwyd

Gallwch weld beth arall rydw i'n mynd i'w wneud drwy gydol y flwyddyn yma.